



Bwletin 1

Adrodd ar Berfformiad Ysgolion

06/05/16

Drwy'r bwletin newydd hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi i Awdurdodau Lleol a Chonsortia yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch adrodd ar berfformiad ysgolion. Byddwn yn defnyddio'r bwletin i sicrhau eich bod yn gwybod y diweddaraf am unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio ar bolisiau adrodd ar berfformiad, ac i egluro unrhyw faterion dyrys. A fydddech cystal â rhannu'r wybodaeth hon â'ch ysgolion fel y bo'n briodol.

1 Gwybodaeth o ran cohortau Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16

Yn 2016, rydym yn symud i drefn lle bydd angen adrodd ar berfformiad ysgolion ar sail cohort blwyddyn 11, yn hytrach na dysgwyr sy'n 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn. Fel y dywedwyd yn ein nodiadau, a anfonwyd at Gyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol a Rheolwyr-Gyfarwyddwyr y Consortia Rhanbarthol ar 19 a 20 Ebrill 2016, gallwn bellach gadarnhau mai CYBLD mis Ionawr fydd y casgliad data a ddefnyddir i gofnodi gwybodaeth am berfformiad ysgol mewn perthynas â chohortau Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16, yn 2016 ac ar ôl hynny.

Gwnaed penderfyniad i barhau i ddefnyddio data CYBLD ar gyfer set ddata'r cohort, a hynny'n bennaf oherwydd yr effeithiau y gallai canlyniadau rhaglen Dyfodol Llwyddiannus eu cael ar y trefniadau presennol ar gyfer casglu data asesiadau drwy'r system Casglu Data Cenedlaethol yn yr haf.

Newid y meini prawf ar gyfer mesur cohortau yw un o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol y gallwn ei wneud i'r mesurau perfformiad. Ni fyddai o fudd i neb pe bawn yn symud y broses o gasglu data cohort i broses Casglu Data Cenedlaethol yr haf, ac wedyn symud y broses ac ailddiffinio'r cohort eto ymhen ychydig flynyddoedd.

Bydd data'r cohort a gofnodir yn sgil asesiadau'r Cyfnod Sylfaen, a

Chyfnodau Allweddol 2 a 3 yn parhau i gael eu casglu fel rhan o'r trefniadau Casglu Data Cenedlaethol yn yr haf.

2 NEWBES:

a) **Dysgwyr sy'n gadael y DU ac wedyn yn dychwelyd**

Yn 2016, lle cofnodir bod gan ddysgwr statws NEWBES, a'i fod wedi gadael y DU cyn dychwelyd wedyn i Gymru, mae'r cyngor canlynol gan Lywodraeth Cymru yn berthnasol:

Caiff ALLau ymestyn cyfnod statws NEWBES yn ôl eu disgresiwn. Fodd bynnag, nid ydym yn cefnogi trefn lle mae statws NEWBES yn cael ei adfer yn awtomatig ym mhob achos lle bydd dysgwr wedi gadael y DU am gyfnod. Byddem yn disgwyl i'r ALI ystyried pob achos yn unigol cyn penderfynu pa mor ddilys fyddai ymestyn y statws NEWBES. Wrth i awdurdod ystyried y mater hwn, byddem yn disgwyl iddo edrych ar ffactorau megis:

- a. Ers faint mae'r dysgwr wedi bod allan o'r DU?
- b. Beth oedd ei sefyllfa o ran caffael iaith cyn iddo adael y DU?
- c. I ba wlad roedd y dysgwr wedi teithio?
- d. Faint o effaith negyddol yr oedd yr amser a dreuliwyd i ffwrdd o'r DU wedi ei chael ar y dysgwr o ran caffael iaith a'i addysg?

Er bod ein nodiadau NEWBES a Chasglu Data Cenedlaethol yn cyfeirio at gofnodi statws NEWBES fel rhywbeth y mae'r pennaeth yn penderfynu arno, fel gyda materion eraill yn ymwneud â rheoli ysgolion a gwybodaeth reoli, byddem yn disgwyl i'r ALI wirio'r data sy'n cael eu cyflwyno inni, gan drafod gyda'r ysgol / ymyrryd pe bai angen.

b) **Adolygu'r trefniadau ar gyfer NEWBES**

Byddwn yn edrych ar y trefniadau ar gyfer NEWBES mewn partneriaeth â rhanddeiliaid yn y dyfodol agos ac yn ystyried sut y dylid eu llunio yn y dyfodol. Byddwn yn rhoi gwybod i

ysgolion ac awdurdodau lleol am yr hyn a wneir o ran y gwaith yma.

3 Y Trefniadau Diystyru ar gyfer 2018

Ysgrifennodd Steve Vincent, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion, at Gyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol a Rheolwyr-Gyfarwyddwyr y Consortia Rhanbarthol ym mis Mawrth i ddweud y bydd y rhestr bresennol o godau diystyru yn parhau ar waith ar gyfer 2018, er ein bod wrthi'n edrych ar y trefniadau diystyru ar gyfer y dyfodol. Cliciwch yma:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolhome/schooldata/ims/usingdataeffectively/?skip=1&lang=cy>

Byddem yn ddiolchgar pe gallai ysgolion barhau i roi gwybod inni am unrhyw gymwysterau nad ydynt wedi eu cynnwys ar y rhestr hyd yn hyn, y bydd eu hangen ar gyfer y cohortau perthnasol dros y blynyddoedd nesaf, drwy e-bostio ims@wales.gsi.gov.uk.

4 Cymwysterau nad ydynt wedi eu diwygio/cymwysterau mewn pynciau lleiafrifol yng Nghymru

Mewn nifer bychan o achosion, lle nad yw cymhwyster yn cael ei ddiwygio yng Nghymru, gall Cymwysterau Cymru ddynodi bod cymhwyster sydd wedi'i gynllunio i fodloni meini prawf yn Lloegr gael ei ddarparu ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Gall cymhwyster o'r fath gyfrif tuag at fesur perfformiad (yn amodol ar y trefniadau diystyru arferol; ystod oedran briodol ar gyfer y cohort dan sylw; a dyddiadau dynodi ac ardystio). Cysylltwch â'r cyrff dyfarnu neu Cymwysterau Cymru yn uniongyrchol os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch cymeradwyo/dynodi cymwysterau.

6 Mesur diwygiedig ar gyfer Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio

Mae dadansoddiad o'r mesur diwygiedig ar gyfer y sgôr pwyntiau wedi'i chapio, ac eglurhad o'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r mesur,

ynghlwm wrth y bwletin hwn.

Mae croeso ichi e-bostio ims@cymru.gsi.gov.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch adrodd ar berfformiad ysgolion